

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

Mr C.B. Jones

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Y Pafiliynau

Parc Hen Lofa'r Cambrian,

Cwm Clydach, CF40 2XX

Ffôn: (01443) 424081 C Hendy

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal yn **Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Iau, 4 Ionawr 2017 am 5.00pm.**

ER GWYBODAETH AC FEL RHEOL GYFFREDINOL, BYDD GOFYN I UNRHYW AELODAU O'R CYHOEDD SY'N DYMUNO SIARAD AR UNRHYW EITEM YN YR AGENDA YMA, Y MAE GYDA NHW FUDDIANT YNDDI, GYFLWYNO CAIS FFURFIOL I'R UWCHADRAN MATERION RHEOLI DATBLYGU, TŶ SARDIS, PONTYPRIDD O LEIAF DAU DDIWRNOD GWAITH CYN DYDDIAD Y CYFARFOD. RHAID I UNRHYW UN SY'N DYMUNO CYFRANNU YN Y CYFARFOD DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG GYSYLLTU Â'R GWASANAETHAU LLYWODRAETHOL
AR 01443 424102

ER GWYBODAETH I'R RHEINY A FYDD YN Y CYFARFOD, MAE'N BOSIBL Y CAIFF MATERION EU TRAFOD MEWN TREFN WAHANOL I'R HYN SYDD WEDI'I NODI YN YR AGENDA ER MWYN GALLUOGI UNIGOLION SYDD AM GYFRANNU YN Y CYFARFOD I WNEUD HYNNY. CAIFF TREFN YR AGENDA EI HADDASU ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR ORAU

AGENDA

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau o'r Pwyllgor yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, pan fyddan nhw'n trafod y materion rheoli datblygu ger eu bron, roi ystyriaeth i'r Cynllun Datblygu a, cyn belled â'u bod yn berthnasol, i geisiadau ac i ystyriaethau eraill. Pan fyddan nhw'n gwneud penderfyniadau, rhaid i Aelodau sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu'n groes i'r Confensiwn ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

3. Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2017 yn rhai cywir.

Tudalen

1 - 4

5. CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO

- (1) Cais Rhif: 16/0405 – Gwaith adfer i eiddo presennol i greu 2 uned fanwerthu a 2 fflat un ystafell wely yn ogystal â thwll grisiau newydd a chyfleusterau parcio gwell wrth ochr yr eiddo (disgrifiad diwygiedig) (Cynlluniau diwygiedig wedi'u derbyn 30/08/17), Siop Prydau Parod Seisnig a Tsieineaidd Southgate, 3 Cardiff Road, Llantrisant, Pont-y-clun. **7 – 16**
- (2) Cais Rhif: 16/0994 – Newid defnydd y tir i faes parcio ar gyfer staff a storio cerbydau ar werth mewn cydweithrediad â safle arddangos ceir Trade Centre Wales, gan gynnwys cadw mynediad newydd oddi ar yr A4054, gosod cysgodfa bysiau, ffensys diogelwch a chynllun gosod llifoleuadau diogelwch newydd.
(ôl-weithredol), The Field Site, Cilfynydd Road, Abercynon, Aberpennar. **17 – 28**
- (3) Cais Rhif: 16/0997 – Cadw lefelau safle presennol a strwthurau gwas a chynllun gosod llifoleuadau diogelwch newydd (ôl-weithredol) (Adroddiad Asesu Effaith Goleuadau wedi'i dderbyn 29/06/17), Trade Centre Wales, Cilfynydd Road, Abercynon, Aberpennar. **28 – 43**

- (4) Cais Rhif: 16/1051 – Cadw hysbysebion wedi'u lleoli ar y safle (23 arwydd ar yr adeilad, 45 arwydd ar golofnau goleuadau, 9 arwydd ar bolion fflagiau, 1 arwydd rhydd-sefyll ym mynedfa'r safle, 1 fynedfa fwaog) (ôl-weithredol), Trade Centre Wales, Cilfynydd Road, Abercynon, Aberpennar. **43 – 61**
- (5) Cais Rhif: 17/0365 – Cais i gymeradwyo materion sydd wedi'u cadw'n ôl i adeiladu 17 eiddo, tir yng Nghoed y Brynna, sy'n ffinio Brynna Road, Brynna, Llanharan. **62 – 73**
- (6) Cais Rhif: 17/1059 – Cais i adeiladu unedau Dosbarth B1/B2/B8 a pharcio a gwasanaethu cysylltiedig. (Aseiad Canlyniadau Llifogydd wedi'i dderbyn 16/11/17), Uned 12, Parc Busnes Hepworth, Tonysguboriau, Pont-y-clun. **73 - 81**
- (7) Cais Rhif: 17/1147 – Amrywio amod 2 o ganiatâd cynllunio 15/1057 – Adeiladu 8 fflat breswyl fforddiadwy, maes parcio, gwaith tirlunio a gwaith cysylltiedig – tir oddi ar Forge Lane, Y Pentre, tir ar Forge Lane, Y Pentre. **81 - 90**
- (8) Cais Rhif: 17/1154 – Tai Gofal ychwanegol gan gynnwys 40 fflat gofal newydd ychwanegol, cyfleusterau cymunedol, gwaith tirlunio a chyfleusterau parcio, 27 Club Street, Aberaman, Aberdâr. **90 – 104**
- (9) Cais Rhif: 17/1168 – Newid Defnydd – A1 i A3. Rydyn ni'n bwriadu datblygu'r eiddo'n ficro-dafarn a siop drwyddedig. Mân newidiadau i'r tu allan i'r eiddo i gynnwys arwydd wedi'i baentio a gwydr lled-barugog. Yn y tu mewn, yr unig newidiadau fydd adeiladu bar ac arddangosfa yng nghefn yr eiddo, gosod seddi newydd, gwaith addurno ac adeiladu silffoedd arddangos/oergelloedd, 30c Cowbridge Road, Pont-y-clun. **104 -113**
- 10) Cais Rhif 17/1201 – Newid defnydd yr eiddo o fod yn C3 (tŷ annedd) i fod yn C4 (tŷ amfeddiannaeth), 53 Kingsland Terrace, Trefforest, Pontypridd. **113 - 118**
- 11) Cais Rhif: 17/1240 – Gwaith adeiladu 6 colofn llifoleuadau arfaethedig a gwaith cysylltiedig. (Bydd gwaith symud, gwaith gosod wyneb newydd ar y cae chwarae a'r llwybr mynediad mewn argyfwng presennol, gwaith gosod ffensys newydd a gwaith seilwaith draenio cysylltiedig yn dechrau o dan Orchymyn Datblygu a Ganiateir ond maen nhw wedi'u cynnwys yn y cais yma i'w cwblhau) Ysgol Gymuned Glynrhedynog, Excelsior Terrace, Y Maerdy, Glynrhedynog. **118 - 126**

6. ADRODDIAD ER GWYBODAETH

Hysbysu Aelodau o'r canlynol, ar gyfer y cyfnod /2017 a /2017. **127 - 142**
Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod
gyda rhesymau.
Trosolwg o Achosion Gorfodi.
Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

7. EITEMAU BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng
ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cylchrediad:

Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu:
(Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Rees a G. Caple)

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto, A. Davies-Jones, D. Grehan, W.
Owen, G. Hughes, P. Jarman, D. Williams, J. Williams ac S. Powell

27 Rhagfyr 2017